

PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod Hybrid a gynhaliwyd ar 21 Mai, 2026.

Mae papurau'r cyfarfod ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

I weld y cyflwyniad a'r drafodaeth ddilynol ar gyfer unrhyw eitem agenda Rhan I, cliciwch ar yr hypergyswllt sydd wedi'i gynnwys yn ei deitl isod.

Yn bresennol: Y Cynghorydd N.C. Thomas (Cadeirydd); Y Cynghorydd M.R. Wilson (Is-gadeirydd); Y Cynghorwyr: G. Bruce, I.R. Buckley, C.A. Cave, J.E. Charles, C.M. Cowpe, P. Drake, A.M. Ernest, W. Gilligan, N.P. Hodges, H.M. Payne, I.A.N. Perry, C. Stallard ac E. Williams.

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorwyr G.D.D. Carroll, C.E.A. Champion, A.M. Collins, R.E. Godfrey, Dr. I.J. Johnson ac R. Sivagnanam (Aelod Cabinet dros Ymgysylltu â'r Gymuned, Cydraddoldeb a Gwasanaethau Rheoleiddiol).

Enw'r Siaradwr	Rhif Cais Cynllunio a Lleoliad	Rheswm dros Siarad
Geraint John	2022/00197/FUL – Fferm Pwll y Darren, Llanddunwyd	Ymgeisydd neu ei gynrychiolydd
Rhys Jones	2025/00973/FUL - Vale Car Sales, Leckwith Road, Llandochoau	Ymgeisydd neu ei gynrychiolydd
Ed Stradling	2026/00056/FUL - Tir yn Hayswood Road, Sili	Gwrthwynebwyr y cais neu eu cynrychiolydd
Andrew Freegard	2026/00056/FUL - Tir yn Hayswood Road, Sili	Ymgeisydd neu ei gynrychiolydd

Siaradodd y Cynghorydd G.D.D. Carroll mewn perthynas â Chais Rhif 2025/00973/FUL – Vale Car Sales, Leckwith Road, Llandochoau fel yr Aelod Ward lleol.

Siaradodd y Cynghorydd A.M. Collins mewn perthynas â Chais Rhif 2026/00056/FUL – Tir yn Hayswood Road, Sili, fel Aelod Ward lleol.

28 [CYHOEDDIAD](#) –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrdd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol".

29 [YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB](#) –

Derbyniwyd hwn gan y Cyngorydd J. Aviet.

30 [DATGANIADAU BUDDIANT](#) –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

31 [COFNODION](#) –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mawrth, 2026 fel cofnod cywir.

32 [CEISIADAU RHEOLI ADEILADAU A MATERION RHEOLI ADEILADAU ERAILL A BENDERFYNWYD GAN BENNAETH ADFYWIO A CHYNLLUNIO DAN BWERAU DIRPRWYEDIG](#) (PDC) –

PENDERFYNWYD –

- (1) Y bod y ceisiadau rheoliadau adeiladu a basiwyd, fel y'u rhestrir yn Adran (a) o'r adroddiad, yn cael eu nodi.
- (2) Y bod y ceisiadau adeiladu a wrthodwyd, fel y'u rhestrir yn Adran (b) o'r adroddiad, yn cael eu nodi.
- (3) Y bod cyflwyno Hysbysiadau o dan Reoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy Ayyb) 2000, fel y'u rhestrir yn Adran (c) o'r adroddiad, yn cael eu nodi.

33 [CEISIADAU CYNLLUNIO A BENDERFYNWYD GAN BENNAETH DATBLYGU CYNALIADWY DAN BWERAU DIRPRWYEDIG](#) (PDC) –

PENDERFYNWYD – Y BOD Y ceisiadau fel yr amlinellir yn yr adroddiad, ar dudalennau 17 i 27, o dan y pwerau dirprwyedig uchod, yn cael eu nodi.

34 [APELIADAU](#) (PDC) –

PENDERFYNWYD –

- (1) Y dylid yr Apeliadau Cynllunio a dderbyniwyd ar ôl i'r Cyngor wrthod rhoi caniatâd cynllunio, fel y nodir yn Adran (a) yr adroddiad, yn cael eu nodi.
- (2) Y dylid nodi nad oedd unrhyw Apelau Gorfodi wedi'u derbyn, fel y manylir yn Adran (b) yr adroddiad.

- (3) Y dylid y Penderfyniadau Apeliadau Cynllunio, fel y manylir yn Adran (c) yr adroddiad, yn cael eu nodi.
- (4) Y dylid y Penderfyniadau Apelaau Gorfodi, fel y manylir yn Adran (d) yr adroddiad, yn cael eu nodi.
- (5) Y dylid yr ystadegau sy'n ymwneud ag apeliadau ar gyfer y cyfnod Ebrill 2025 – Mawrth 2026, fel y manylir yn Adran (e) yr adroddiad, yn cael eu nodi.

35 [COED](#) (PDC) –

(i) Rhestr Ddirprwyedig –

PENDERFYNWYD – Nodi'r ceisiadau fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad, ar dudalennau 35 a 36, fel y'u pennwyd gan y Pennaeth Datblygu Cynaliadwy dan bwerau dirprwyedig.

36 [CEISIADAU CYNLLUNIO](#) (PDC) –

PENDERFYNWYD – Y BOD, yn unol â'r pwerau a ddirprwywyd i'r Pwyllgor, y dylid penderfynu ar y ceisiadau canlynol fel y nodir a chymryd unrhyw gamau angenrheidiol eraill.

[2022/00197/FUL](#)
(T38)

Wedi'i dderbyn ar 8 Medi 2022

YMGEISYDD: R. A. England Fferm Pwll Y Darren, Lôn Fferm Whitefields, Bro Morganwg, Llanddunwyd, CF71 7SS

ASIAINT: Mr Geraint John Swyddfa 16 (Tŷ 1, 2il Lawr), The Maltings, Stryd East Tyndall, Caerdydd, CF24 5EA

Fferm Pwll Y Darren, Lôn Fferm Whitefields, Llanddunwyd

Ailbroffilio tir yn ôl-weithredol ac arfaethedig, y bwriad i godi adeiladau fferm a gwaith cysylltiedig (Safle 1), a rhesymoli iard gysylltiedig (Safle 6)

Roedd yn ofynnol i'r Pwyllgor Cynllunio benderfynu ar y cais o dan gynllun dirprwyo cymeradwy'r Cyngor oherwydd bod y cais o raddfa a/neu natur nad oedd wedi'i gynnwys yn y cynllun dirprwyo.

PENDERFYNWYD – BOD yn amodol ar yr ymgeisydd yn ymrwymo i Gytundeb Ymrwymiad Unochrog / Adran 106 mewn perthynas â:

(i) Fel cam cyntaf ac o fewn x mis i ddyddiad y penderfyniad, dechrau a chwblhau, adeilad (a neu b *).

(ii) O fewn x mis i gwblhau'r adeilad cyntaf (a neu b), rhaid i'r adeilad hwnnw fod wedi'i feddiannu a'i ddefnyddio fel y nodir yn y cais. Os nad yw'r adeilad yn cael ei

feddiannu o dan y telerau hyn, yna bydd adeilad (a neu b) yn cael ei ddymchwel o fewn x mis a'r deunyddiau wedi'u symud o'r tir.

(iii) Fel ail gam, bydd yr ail adeilad (a neu b*) yn cael ei godi a'i gwblhau o fewn x mis i ddyddiad y penderfyniad.

(iv) Oni bai ei fod o fewn x mis i ddyddiad cwblhau'r ail adeilad, ei feddiannu a'i ddefnyddio fel y nodir yn y cais, yna bydd yr adeilad yn cael ei ddymchwel o fewn x mis.

(v) Os ar unrhyw adeg mae'r naill neu'r llall o'r adeiladau yn parhau heb eu defnyddio at eu diben amaethyddol datganedig neu y cytunwyd arnynt yn ddiweddarach am fwy na x mis, bydd yr holl adeiladau a strwythurau yn cael eu dymchwel o fewn x mis ar ôl hynny.

(vi) Bydd y safle yn cael ei gwblhau'n llawn o fewn x mis o ddyddiad y caniatâd ac ar ôl y dyddiad hwn, ni fydd unrhyw waith tir / cloddio pellach.

(vii) Bod y Cyngor yn cael ei hysbysu'n ysgrifenedig o fewn wythnos am ddechrau adeiladu pob adeilad.

(viii) Bod y Cyngor yn cael ei hysbysu'n ysgrifenedig o fewn wythnos am feddiannu pob adeilad.

(ix) Dim gwahanu'r daliad (tir y cais o'r eiddo teitl).

(x) Ni fydd unrhyw mewnforio nac allforio ddeunyddiau neu briddoedd, ac eithrio'r rhai sy'n ofynnol ar gyfer adeiladu'r adeiladau, oni bai bod yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi cytuno fel arall yn ysgrifenedig.

(xi) Diffinnir cwblhau fel y gellir ei ddefnyddio at ei ddefnydd arfaethedig.

* Ymgeisydd / asiant i gadarnhau trefn yr adeiladau, h.y. adeilad a ac adeilad b i'w diffinio

Nodyn - Mae X yn dynodi union nifer y misoedd y cytunir arnynt gyda'r ymgeisydd wrth ddrafftio'r cytundeb cyfreithiol.

CYMERADWYWYD - yn amodol ar yr amodau canlynol:

1. Bydd y datblygiad yn dechrau heb fod yn hwyrach na phum mlynedd o ddyddiad y penderfyniad hwn.

Rheswm:

Cydymffurfio â gofynion Adran 91 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

2. Bydd y datblygiad yn cael ei wneud yn unol â'r cynlluniau a'r dogfennau cymeradwy canlynol:

Datganiad Cynllunio (ac eithrio darnau o'r cynllun safle arfaethedig a chynlluniau adeiladu peiriannau / storio gwellt arfaethedig) a dderbyniwyd 21 Chwefror 2022

RAC/8433/1 - Cynllun Lleoliad
 RAC/8433/4 – Gweddau, Storfa Grawn
 PWL/07 - Arolwg Topograffig
 RAC/8433/5 Rev A - Lleoliad Topograffig Storfeydd Peiriannau a Grawn
 RAC/8433/6 - Cynllun Adfer
 RAC/8433/7 - Cynllun Lleoliad
 RAC Codi Adeiladau Storio Grawn, Gwellt a Pheiriannau gydag arwyneb galed ar gyfer Storio Bêls

Derbyniwyd 28 Chwefror 2022

Datganiad Cynllunio, Dylunio a Mynediad (ac eithrio darnau o'r cynllun safle arfaethedig a chynlluniau adeiladu peiriannau / storio gwellt arfaethedig) a dderbyniwyd ar 28 Mehefin 2022

Diwygiedig- RAC/8433/3 Rev 06/2023 Gweddau, Adeilad Gwellt a Pheiriannau wedi'i dderbyn 20 Mehefin 2023

Datganiad Seilwaith Gwyrdd (ac eithrio darnau o'r 'Cymorth Delweddu Cynllun Safle' a dderbyniwyd 29 Ionawr 2025)

RAC/8433/2 Rev 2026 Cynllun Safle wedi'i dderbyn 27 Mawrth 2026

Rheswm:

Er mwyn osgoi amheuan ynglŷn â'r datblygiad cymeradwy ac i gyd-fynd â Chylchlythyr 016:2014 ar Y Defnydd o Amodau Cynllunio ar gyfer Rheoli Datblygu.

3. Ni fydd unrhyw waith adfer yn digwydd mewn perthynas â safle rhif 6, nes y bydd manylion llawn tirlunio (i gynnwys lefelau a rhannau presennol a arfaethedig drwy'r safle) wedi'u cyflwyno i'w cymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Dim ond ar ôl cymeradwyo'r cynllun tirlunio yn ysgrifenedig y bydd y gwaith yn dechrau. Bydd yr holl waith plannu, hadu neu dywarchu wedi'i gynnwys yn y manylion cymeradwy tirweddu'n cael ei wneud yn y tymhorau plannu a hadu cyntaf ar ar ôl cymeradwyo'r manylion; a bydd unrhyw goed neu blanhigion sydd o fewn cyfnod o 5 mlynedd ar ôl cwblhau'r datblygiad yn marw, yn cael eu symud neu'n cael eu difrodi'n ddifrifol neu eu heintio yn cael eu disodli yn y tymor plannu nesaf gydag eraill o faint a rhywogaeth debyg.

Rheswm:

I sicrhau adferiad derbyniol o'r safle ac i gydymffurfio â pholisi SP1 (Cyflawni'r Strategaeth) o'r Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig.

4. Bydd yr holl waith adeiladu, tirlunio ac adfer sy'n ofynnol mewn perthynas â'r datblygiad a gymeradwyir drwy hyn yn cael ei gyfyngu i'r oriau gweithredu canlynol:

- 08:00 i 17:00 o ddydd Llun i ddydd Gwener
- 08:00 i 13:00 dydd Sadwrn

Ni fydd unrhyw weithrediadau yn cael eu cynnal ar ddydd Sul na Gwyliau Banc.

Rheswm:

Diogelu meddianwyr cyfagos a sicrhau cydymffurfiaeth â pholisïau SP1 (Cyflawni'r Strategaeth) ac MD2 (Dylunio Datblygiad Newydd) y Cynllun Datblygu Lleol.

5. Cyn dechrau'r datblygiad o fewn safle rhif 1, dylid codi ffensys amddiffynnol, sy'n cydymffurfio â rheoliadau BS5837:2012, ar hyd ffin ogleddol safle rhif 1 (a ddynodir gan y cynllun rhif RAC/8433/1).

Rheswm:

Diogelu'r coed a'r coetir hynafol sydd wedi'u lleoli yn agos at safle'r cais ac i gydymffurfio â pholisi SP1 (Cyflawni'r Strategaeth) o'r Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd.

6. Dim ond ar gyfer storio bêls silwair wedi'u lapio y defnyddir y pad silwair. Bydd yr holl silwair yn cael ei lapio cyn ei gyflwyno i'r datblygiad a gymeradwywyd drwy hyn.

Rheswm:

Sicrhau nad oes unrhyw effaith niweidiol ar gynefinoedd, cyrsiau dŵr a chydymffurfio â pholisi SP1 (Cyflawni'r Strategaeth) y Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd.

7. Cyn y defnydd buddiol cyntaf o'r datblygiad, bydd Strategaeth Gwella Bioamrywiaeth sy'n mynd i'r afael â mesurau gwella yn cael ei chyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i chymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Ar ôl hynny, bydd y datblygiad yn cael ei gynnal yn unol â'r strategaeth gymeradwy a'r amseroedd a nodir o fewn ac wedi hynny yn cael ei gadw yn unol â'r manylion cymeradwy tra bod y datblygiad yn parhau i fodoli. Bydd y Strategaeth yn cynnwys y canlynol:

- a) Manylion unrhyw ddarpariaeth bocs adar/ystlumod
- b) Manylion unrhyw nodweddion tirlunio
- c) Manylion unrhyw welliannau ecolegol ychwanegol

Rheswm:

Er budd ecoleg ac er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisïau SP1 (Cyflawni'r Strategaeth) ac MD9 (Hyrwyddo Bioamrywiaeth) y Cynllun Datblygu Lleol.

8. Os canfyddir halogiad ar unrhyw adeg wrth gyflawni'r datblygiad cymeradwy nad oedd wedi'i nodi o'r blaen, rhaid adrodd hyn yn ysgrifenedig o fewn 2 ddiwrnod i'r Awdurdod Cynllunio Lleol, rhaid i'r holl waith cysylltiedig ddod i ben, ac ni fydd unrhyw ddatblygu pellach yn digwydd, oni bai y cytunwyd fel arall yn ysgrifenedig, nes bod cynllun i ddelio â'r halogiad a ganfuwyd wedi'i gymeradwyo. Ymchwiliad a risg
Rhaid cynnal asesiad risg a lle bo angen unioni, rhaid paratoi cynllun unioni a chynllun cadarnhau a'u cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a rhaid iddynt gael eu cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo hefyd. Ar ôl cwblhau'r mesurau a nodwyd yn y cynllun unioni cymeradwy, rhaid cyflwyno adroddiad cadarnhau i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a rhaid i hyn gael ei gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Bydd yr amserlen ar gyfer y camau uchod yn cael ei chytuno gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol o fewn pythefnos i ddarganfod unrhyw halogiad nas amheuwyd.

Rheswm:

Er mwyn sicrhau bod unrhyw risgiau annerbyniol o halogiad tir i ddefnyddwyr y tir yn y dyfodol, tir cyfagos, dyfroedd rheoledig, eiddo a systemau ecolegol yn cael eu lleihau, a sicrhau y gellir cyflawni'r datblygiad yn ddiogel heb risgiau annerbyniol i weithwyr, cymdogion a derbynyddion eraill oddi ar y safle ac i gydymffurfio â Pholisïau SP1 (Cyflawni'r Strategaeth) ac MD7 (Diogelu'r Amgylchedd) y Cynllun Datblygu Lleol.

9. Bydd unrhyw uwchbridd (naturiol neu artiffisial) neu isbridd a fewnforir yn cael ei asesu ar gyfer halogyddion cemegol neu halogyddion posibl eraill yn unol â chynllun ymchwilio a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig cyn ei fewnforio. Dim ond deunydd a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol a gaiff ei fewnforio. Bydd yr holl fesurau a bennir yn y cynllun cymeradwy yn cael eu cyflawni yn unol â'r Cod Ymarfer a'r Nodiadau Canllaw perthnasol.

Yn amodol ar gymeradwyo'r uchod, rhaid cynnal samplau ar y deunydd a ddygir ar y safle datblygu i gadarnhau bod y pridd wedi'i fewnforio heb ei halogi, a gwneir hynny'n unol â'r cynllun a'r amserlen y cytunir arnynt yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

Rheswm:

Er mwyn sicrhau nad oes niwed i ddiogelwch meddianwyr yn y dyfodol yac i gydymffurfio â Pholisïau SP1 (Cyflawni'r Strategaeth) ac MD7 (Diogelu'r Amgylchedd) y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig.

10. Bydd unrhyw agregau (ond am garreg chwarel crai) neu agregau a ailgylchir a fewnforir yn cael ei asesu ar gyfer halogyddion cemegol neu arall posibl yn unol â chynllun archwilio a gaiff ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo cyn ei fewnforio. Dim ond deunydd a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol a gaiff ei fewnforio. Cyflawnir pob mesur a nodir yn y cynllun a gymeradwyir yn unol â'r Cod Ymarfer a'r Nodiadau Canllaw perthnasol.

Yn amodol ar gymeradwyo'r uchod, rhaid cynnal samplau ar y deunydd a ddygir ar y safle datblygu i gadarnhau bod y deunydd wedi'i fewnforio heb ei halogi, a gwneir hynny'n unol â'r cynllun a'r amserlen y cytunir arnynt yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

Rheswm:

Er mwyn sicrhau nad oes niwed i ddiogelwch meddianwyr yn y dyfodol yac i gydymffurfio â Pholisïau SP1 (Cyflawni'r Strategaeth) ac MD7 (Diogelu'r Amgylchedd) y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig.

11. Cyn adeiladu'r slab concrit, y slabiau adeiladu a'r pad silwair, bydd manylion y lefelau daear presennol o fewn y safle ac yn gyfagos iddo a'r lefelau gwaelod a'r llawr arfaethedig wedi'u gorffen yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Bydd y gwaith datblygu'n mynd rhagddo yn unol â'r manylion a gymeradwywyd.

Rheswm:

Er mwyn sicrhau bod amwynderau gweledol ehangach yn cael eu diogelu, a sicrhau bod y datblygiad yn unol â thelerau Polisiau SP1 (Cyflawni'r Strategaeth) a MD2 (Dylunio Datblygiad Newydd) y Cynllun Datblygu Lleol.

2025/00973/FUL
(T72)

Wedi'i dderbyn ar 29 Medi 2025

YMGEISYDD: d/o Asiant d/o Asiant, CF23 9FP

ASIAANT: Mr Rhys Jones 22 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ

Vale Car Sales, Leckwith Road Llandochoau, Penarth,

Datblygiad arfaethedig o 30 o fflatiau fforddiadwy, mynediad, parcio, plannu tirwedd, a gwaith cysylltiedig.

Roedd yn ofynnol i'r Pwyllgor Cynllunio benderfynu ar y cais o dan gynllun dirprwyo cymeradwy'r Cyngor oherwydd bod y cais o raddfa a/neu natur nad oedd wedi'i gynnwys yn y cynllun dirprwyo.

Yn dilyn trafodaethau ar y cais hwn, ac oherwydd nad oedd unfrydedd ar hyn, galwyd pleidlais. Gofynnodd Aelodau'r Pwyllgor am Bleidlais Gofnodedig, a gynhaliwyd fel a ganlyn:

Aelod	O Blaid	Yn Erbyn	Ymatal
G. Bruce		√	
I.R. Buckley	√		
C.A. Cave		√	
J.E. Charles		√	
C.M. Cowpe	√		
P. Drake	√		
A.M. Ernest		√	
W. Gilligan	√		
N.P. Hodges	√		
C. Stallard	√		
N.C. Thomas	√		
E. Williams	√		
M.R. Wilson	√		
CYFANSWM	9	4	0

Felly, cafodd argymhellion y swyddogion eu pasio. Yn dilyn y bleidlais a'r trafodaethau uchod yn y Pwyllgor, fe'i

PENDERFYNWYD - cynnwys y rhwymedigaethau cynllunio angenrheidiol canlynol ar yr amod bod y person(au) sydd â diddordeb yn ymrwymo i Gytundeb Cyfreithiol Adran 106 yn gyntaf:

- Sicrhau bod y cynllun yn cael ei ddatblygu fel tai fforddiadwy 100% gan un o'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig neu'r Cyngor yn unig;
- Talu swm o £11,500 i gyfrannu tuag at ddarparu cyfleusterau cludiant cynaliadwy yng nghyffiniau'r safle;
- Talu swm o £13,340 ar wella cyfleusterau mewn ardaloedd o fannau agored cyhoeddus a fyddai'n cael eu defnyddio gan feddianwyr y datblygiad;
- Darparu Celf Gyhoeddus gwerth 16.6% o'r gost adeiladu o 1%, a
- Thalw swm o £6,300 i gyfrannu tuag at ddarparu cyfleusterau cymunedol newydd, neu gwella rhai presennol, yn yr ardal.

CYMERADWYWYD - yn amodol ar yr amodau canlynol:

1. Bydd y datblygiad yn dechrau heb fod yn hwyrach na phum mlynedd o ddyddiad y penderfyniad hwn.

Rheswm:

Cydymffurfio â gofynion Adran 91 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

2. Bydd y datblygiad yn cael ei wneud yn unol â'r cynlluniau a'r dogfennau cymeradwy canlynol:

A001 Cynllun Lleoliad y Safle rev B
 A011 Bloc 3 Cynlluniau Llawr rev F
 A012 Bloc 3 Gweddau rev C
 A011 Bloc 4 Cynlluniau Llawr rev F
 A014 Bloc 4 Gweddau rev C
 A015 Adrannau Safle rev B
 11200/PR Asesiad o'r Effaith Sŵn Rev C (ac eithrio cynllun arfaethedig y safle ffigur 2)
 24.139 Adroddiad Ymgynghori Cyn Gwneud Cais
 Arolwg Ystlumod V2.0 Ecological Services Ltd (ac eithrio'r cynlluniau ar dudalen 18 ar gyfer lleoliad a argymhellir gwelliannau ystlumod ac adar)
 Lb588 R01b Datganiad Seilwaith Gwyrdd (ac eithrio'r cynlluniau tirlunio meddal ar dudalennau 8, 9 a 10)
 Arfarnu Ecolegol Rhagarweiniol Tir oddi ar Heol Lecwydd V1
 14383/AG/25/SI/RevA Adroddiad Ymchwiliad Safle
 Cynllun Cyfyngiadau Coed
 Arolwg Coed Heol Lecwydd, Llandochoau, Penarth

Derbyniwyd ar 29 Medi 2025

A005 Bloc 1 Cynllun Llawr Gwaelod rev G
 A008 Bloc 1 Gweddau rev D
 A011 Bloc 4 Cynlluniau Llawr rev G
 A010 Bloc 2 Gweddau rev D
 A006 Bloc 1 Cynllun Llawr Cyntaf rev G

Derbyniwyd 5 Chwefror 2026

2624-100-F Cynllun Peirianeg
 LB588_D01 Rev B Cynnig Tirlunio Meddal Manwl (taflen 1)
 LB588_D01 Rev C Cynnig Tirlunio Meddal Manwl (taflen 2)

Derbyniwyd 22 Ebrill 2026

A003 Cynllun Safle Arfaethedig rev J
 A004 Cynllun Ffin rev E

Derbyniwyd 27 Ebrill 2026

C24083/TS01 Datganiad Trafnidiaeth Rhifyn 5
 2624-PHG-RP-C-0001 Strategaeth Rheoli Draenio a Chynnal a Chadw P4
 2624-PHG-RP-C-002 Asesiad o ganlyniadau llifogydd a Strategaeth Draenio diwygiad 6

Derbyniwyd 30 Ebrill 2026

Rheswm:

Er mwyn osgoi amheuon ynglŷn â'r datblygiad cymeradwy ac i gyd-fynd â Chylchlythyr 016:2014 ar Y Defnydd o Amodau Cynllunio ar gyfer Rheoli Datblygu.

3. Darperir y tai fforddiadwy yn unol â'r cynllun cymeradwy a bydd yn bodloni'r diffiniad o dai fforddiadwy yn Atodiad B Nodyn Cyngor Technegol 2 Llywodraeth Cymru ar Dai Fforddiadwy, neu unrhyw ganllawiau yn y dyfodol sy'n ei ddisodli. Bydd y cynllun yn cael ei gyflawni gan yr Awdurdod neu un o'i bedwar Landlord Cymdeithasol Cofrestredig (Tai Hafod, Tai Newydd, Tai United Welsh a Thai West and Wales) a chyflwynir manylion i'r Awdurdod Cynllunio Lleol cyn dechrau'r datblygiad.

Rheswm:

Er mwyn sicrhau bod y safle yn cynnig darpariaeth briodol o dai fforddiadwy i ddiwallu'r angen a nodwyd ac i sicrhau cydymffurfiaeth â thelerau Polisiâu SP1 (Cyflawni'r Strategaeth), SP4 (Darpariaeth Tai Fforddiadwy), MG4 (Tai Fforddiadwy), MD4 (Seilwaith Cymunedol a Rhwymedigaethau Cynllunio), y Cynllun Datblygu Lleol.

4. Er gwaethaf y manylion a gyflwynwyd, a chyn iddynt gael eu defnyddio yn y datblygiad a gymeradwywyd drwy hyn, caiff atodlen o'r holl ddeunyddiau a gorffeniadau ei chyflwyno, i gynnwys samplau, i'w defnyddio wrth adeiladu'r datblygiad, i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i chymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Bydd y gwaith datblygu'n cael ei gwblhau yn unol â'r manylion a gymeradwywyd.

Rheswm:

Er mwyn diogelu amwynderau gweledol lleol, fel sy'n ofynnol gan Polisiâu SP1 (Cyflawni'r Strategaeth) a MD2 (Dylunio Datblygiad Newydd) y Cynllun Datblygu Lleol.

5. Er gwaethaf y manylion a gyflwynwyd, ni fydd unrhyw ddatblygiad ac eithrio dymchwel, yn dechrau nes bod manylion y lefelau tir presennol o fewn y safle ac yn gyfagos i'r safle, a'r lefelau gwaelod a'r llawr gorffenedig arfaethedig, wedi'u cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Bydd y gwaith datblygu'n mynd rhagddo yn unol â'r manylion a gymeradwywyd.

Rheswm:

Er mwyn sicrhau bod amwynderau gweledol ehangach yn cael eu diogelu, a sicrhau bod y datblygiad yn unol â thelerau Polisiâu SP1 (Cyflawni'r Strategaeth) a MD2 (Dylunio Datblygiad Newydd) y Cynllun Datblygu Lleol.

6. Er gwaethaf y manylion a gyflwynwyd, cyn eu adeiladu, bydd yr holl strwythurau amgáu a chynhaliol sy'n gysylltiedig â'r datblygiad a

gymeradwydd drwy hyn yn cael eu cwblhau yn unol â chynllun a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gytuno yn ysgrifenedig cyn eu hadeiladu. Bydd y cynllun yn cynnwys manylion uchder, deunydd a lliw, yn ogystal â manylion ymddangosiad. Bydd y dull amgáu yn cael ei gwblhau yn unol â'r manylion cymeradwy cyn y defnydd buddiol cyntaf o'r datblygiad.

Rheswm:

Er mwn diogelu amwynderau gweledol lleol, a sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisïau SP1 (Cyflawni'r Strategaeth) a Pholisi MD2 (Dylunio Datblygiad Newydd) o'r Cynllun Datblygu Lleol.

7. Er gwaethaf darpariaethau Rhan 2 (Mân Weithrediadau) Dosbarth A o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (fel y'i diwygiwyd ar gyfer Cymru) (neu unrhyw orchymyn sy'n dirymu ac yn ailddeddfu'r Gorchymyn hwnnw gydag addasiad neu hebdo), ni chaiff unrhyw ffensys, gatiâu, waliau na dulliau eraill o amgáu ac eithrio'r rhai a gymeradwydd o dan Amod 6 a 7 o'r caniatâd hwn.

Rheswm:

Diogelu amwynderau gweledol lleol, a sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisi MD2 (Dylunio Datblygiadau Newydd) o'r Cynllun Datblygu Lleol.

8. Er gwaethaf y manylion a gyflwynwyd, cyn adeiladu'r anheddau, bydd manylion llawn y storfa/storfeydd biniau arfaethedig yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Bydd y datblygiad wedi hynny yn cael ei osod yn unol â'r manylion y cytunwyd arnynt, cyn meddiannu unrhyw un o'r fflatiau ac wedi hynny ei gadw.

Rheswm:

Diogelu amwynderau gweledol lleol a sicrhau storio biniau priodol i'r meddianwyr, yn ogystal â sicrhau cydymffurfiaeth â thelerau Polisïau SP1 (Cyflawni'r Strategaeth) ac MD2 (Dylunio Datblygiadau Newydd) o'r Cynllun Datblygu Lleol.

9. Er gwaethaf y cynlluniau a'r manylion a gyflwynwyd, ni fydd unrhyw waith adeiladu o gwbl yn dechrau ar y datblygiad nes bod manylion peirianeg llawn y fynediad i'r safle a'r radiau cyffordd arfaethedig a'r sriben ddwndwr, ffiniau'r briffordd fabwysiedig, troedffordd ar hyd ffryntiad y safle, mannau croesi heb eu rheoli, lleiniau gwelededd, goleuadau stryd, draenio priffyrdd, parcio ar y safle, manylion ar gyfer darparu Gorchymyn Rheoleiddio Traffig (GRhT) ac unrhyw strwythurau cynhaliol priffyrdd cysylltiedig ac ati cyfagos i'r safle sy'n ofynnol gan y Briffordd Leol wedi'u cyflwyno a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

Rheswm:

Sicrhau datblygiad boddhaol y safle a sicrhau bod ffyrdd ystâd yn cael eu dylunio a'u hadeiladu i safon addas a diogel ac i sicrhau cydymffurfiaeth â pholisi SP1 (Cyflawni'r Strategaeth) y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig.

10. Cyn meddiannu'r anheddau a gymeradwywyd drwy hyn, bydd y parcio a'r mynediad, y troedffyrdd a'r ardaloedd troi cysylltiedig wedi'u gosod ar y safle yn unol â'r cynlluniau cymeradwy a chaiff y cynllun cymeradwy ar gael ar gyfer parcio cerbydau i wasanaethu'r datblygiad am oes y defnydd.

Rheswm:

Er mwyn sicrhau bod cyfleusterau parcio a throi cerbydau a beiciau boddhaol yn cael eu darparu ar y safle i wasanaethu'r datblygiad, ac i sicrhau cydymffurfiaeth â thelerau Polisiâu SP1 (Cyflawni'r Strategaeth) ac MD2 (Dylunio Datblygiadau Newydd) y Cynllun Datblygu Lleol.

11. Ni fydd unrhyw rwystrau gan gynnwys plannu o gwbl o fewn yr ardaloedd sy'n ofynnol ar gyfer lleiniau gwelededd. Rhaid cynnal unrhyw wrychoedd neu blanhigion er mwyn sicrhau bod y lleiniau gwelededd gofynnol yn cael eu cadw er budd diogelwch priffyrdd / cyhoedd.

Rheswm:

Er budd diogelwch ar y briffordd ac i sicrhau ffordd fynediad foddhaol i wasanaethau'r datblygiad, ac i sicrhau cydymffurfiaeth â thelerau Polisiâu SP1 (Cyflawni'r Strategaeth) ac MD2 (Dylunio Datblygiad Newydd) y Cynllun Datblygu Lleol.

12. Cyn meddiannaeth fuddiol gyntaf y datblygiad, bydd gorchymyn rheoleiddio traffig (GRhT) a phwynt croesi heb ei reoli, yn unol â'r cytundebau perthnasol gyda'r Awdurdod Priffyrdd, wedi bod ar waith / wedi'i gwblhau'n llawn.

Rheswm:

Er budd diogelwch priffyrdd ac i gydymffurfio â Pholisi SP1 (Cyflawni'r Strategaeth) o'r Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig.

13. Cyn dechrau unrhyw waith ac ar draul y datblygwyr, cynhelir Arolwg Cyflwr ar hyd y llwybr cludo y cytunwyd arno (y graddau y cytunir arnynt â Rheolwr Rhwydwaith Priffyrdd y Cyngor) a'i gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Bydd yr arolwg yn cael ei gynnal gan Ymgynghorydd Cynnal a Chadw Priffyrdd sydd â chymwysterau priodol a phrofiadol ac annibynnol i'w gymeradwyo gan yr Awdurdod Priffyrdd / Cynllunio Lleol.

Rheswm:

Er budd diogelwch priffyrdd/ y cyhoedd ac i gydymffurfio â pholisi SP1 (Cyflawni'r Strategaeth) o'r Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig.

14. Ar ôl cwblhau'r eiddo olaf neu'r fath amser y mae'r Awdurdod Priffyrdd yn ei gyfarwyddo, cynhelir ail Arolwg Cyflwr ar draul y datblygwyr ar hyd y llwybr cludo y cytunwyd arno (y graddau y cytunir arnynt â Rheolwr Rhwydwaith Priffyrdd y Cyngor) a'i gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Bydd yr arolwg yn cael ei gynnal gan yr Ymgynghorydd Cynnal a Chadw Priffyrdd annibynnol cymeradwy a bydd yn ofynnol i unrhyw waith adfer a nodwyd ar hyd y llwybrau cludo a ystyrir yn angenrheidiol gael ei wneud ar draul y datblygwyr cyn cymeradwyo'r feddiannaeth fuddiol gyntaf o'r datblygiad a gymeradwywyd drwy hyn.

Rheswm:

Er budd diogelwch priffyrdd/ y cyhoedd ac i gydymffurfio â pholisi SP1 (Cyflawni'r Strategaeth) o'r Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig.

15. Cyn dechrau datblygu, bydd Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu'n cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Bydd y Cynllun Rheoli yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Ymgorffori danfoniadau y tu allan i oriau casglu / gollwng ysgol yn y bore a'r rpynhawn,
- Llwybr Mynediad/Cludo.
- Cynllun y cwrt gan gynnwys parcio ar gyfer cerbydau adeiladu. Dim cerbydau i barcio ar hyd Heol Lecwydd neu'r ardal gyfagos.
- Ardaloedd llwytho a dadlwytho peiriannau a deunyddiau ar y safle
- Mesurau i reoli dŵr, mwd a malurion sy'n mynd i mewn i'r briffordd.
- Triniaethau ffiniau addas i ddiogelu disgyblion a staff.
- Unrhyw arwyddion neu reolaeth traffig sy'n ofynnol fel rhan o'r datblygiad.

Bydd y datblygiad yn cael ei wneud yn unol â'r Cynllun Rheoli cymeradwy.

Rheswm:

Er mwyn sicrhau nad yw'r ddarpariaeth parcio na diogelwch ar y briffordd yn yr ardal yn cael eu heffeithio'n andwyol gan y gwaith o adeiladu'r datblygiad ac i fodloni gofynion Polisiâu SP1 (Cyflawni'r Strategaeth), MD2 (Dylunio Datblygiadau Newydd) ac MD7 (Diogelu'r Amgylchedd) y Cynllun Datblygu Lleol.

16. Ni fydd unrhyw ddatblygiad yn dechrau, nes bod Cynllun Rheoli Amgylchedd Adeiladu (CRhAA) wedi'i gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Bydd y CrhAA yn cynnwys y manylion canlynol:

- i) parcio cerbydau gweithredwyr safle ac ymwelwyr;
- ii) llwytho a dadlwytho peiriannau a deunyddiau;
- iii) storio peiriannau a deunydd a ddefnyddir wrth adeiladu'r datblygiad;

- iv) codi a chynnal a chadw palisau diogelwch, gan gynnwys arddangosfeydd addurniadol a chyfleusterau i'w gweld gan y cyhoedd, lle bo'n briodol;
- v) cyfleusterau golchi olwynion;
- vi) mesurau i reoli a lliniaru allyriadau llwch, mwg, llygryddion eraill a gludir yn yr awyr a bryntni wrth adeiladu;
- vii) chynllun ar gyfer ailgylchu/gwaredu gwastraff sy'n deillio o waith adeiladu.
- viii) oriau adeiladu a danfoniadau;
- ix) goleuadau;
- x) rheoli, rheolaeth a lliniaru sŵn a dirgryniad;
- xi) rheoli a lliniaru arogleuon;
- xii) ardaloedd neu fyndiau storio tanciau disel ac olew;
- xiii) sut mae'r datblygwr yn bwriadu cydymffurfio â'r Cynllun Adeiladwyr Ystyriol (www.considerateconstructorsscheme.org.uk) yn ystod y gwaith o adeiladu'r datblygiad; a
- xiv) system i reoli cwynion gan drigolion lleol a fydd yn cynnwys system adrodd ar gwynion.

Bydd adeiladu'r datblygiad yn cael ei wneud yn unol â'r CRhAA cymeradwy.

Rheswm:

Er mwyn sicrhau bod y gwaith o adeiladu'r datblygiad yn cael ei wneud mewn modd ystyriol o'r gymdogaeth ac er budd diogelu amwynderau a'r amgylchedd ac i sicrhau cydymffurfiaeth â thelerau Polisiâu SP1 (Cyflawni'r Strategaeth) a MD7 (Diogelu'r Amgylchedd) y Cynllun Datblygu Lleol.

17. Er gwaethaf y manylion a gyflwynwyd, cyn meddiannu unrhyw uned, cynhelir arolwg sŵn a'i gyflwyno'n ysgrifenedig i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i ddangos bod pob ystafell breswyl yn cyflawni lefelau sŵn mewnol o 35dBA Leq16 awr yn ystod y dydd ac bod ystafelloedd gwely yn cyflawni 30dBA Leq 8 awr yn y nos (gyda ffenestri ar gau) ac nad yw LAmxfast o 45dB yn cael ei ragori arno. Os yw'r arolwg sŵn yn dangos nad yw'r lefelau hyn wedi'u cyflawni, cynhelir gwaith adfer ychwanegol ac arolwg sŵn pellach i sicrhau bod y lefelau hyn yn cael eu cyrraedd yn unol â BS8233: 2014 a'u cyflwyno'n ysgrifenedig i'r Awdurdod Cynllunio Lleol.

Rheswm:

Er budd amwynderau deiliaid yr anheddau hyn yn y dyfodol yn unol â pholisïau MD2 (Dylunio Datblygiadau Newydd) ac MD7 (Diogelu'r Amgylchedd) y Cynllun Datblygu a'r cyngor a gynhwysir yn Nodyn Cyngor Technegol 11: Sŵn.

18. Cyn dechrau'r datblygiad, ac eithrio dymchwel, bydd asesiad o natur a graddau'r halogiad yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig. Rhaid i'r asesiad hwn gael ei gynnal gan, neu o dan gyfarwyddyd, person cymwys sydd â chymwysterau addas* yn unol â Chod Ymarfer BS10175 (2011) ar gyfer Ymchwilio i Safleoedd a Allai fod wedi'u Halogi, a bydd yn asesu unrhyw halogiad ar y safle, p'un a yw'n tarddu o'r safle ai peidio. Bydd adroddiad y canfyddiadau'n cynnwys:

- (i) ddim yn Ofynnol
- (ii) ymchwiliad ymwthiol i asesu maint, graddfa a natur yr halogiad a allai fod yn bresennol, os nodir fel sy'n ofynnol gan yr astudiaeth pen desg;
- (iii) asesiad o'r risgiau posibl i'r canlynol:
 - iechyd dynol,
 - dŵr daear a dŵr wyneb
 - tir cyfagos,
 - eiddo (presennol neu arfaethedig) gan gynnwys adeiladau, cnydau, da byw, anifeiliaid anwes,
 - coetiroedd, a llinellau a phibellau gwasanaethu,
 - systemau ecolegol,
 - safleoedd archeolegol a henebion; ac
 - unrhyw dderbynyddion eraill a nodwyd yn (i).
- (iv) arfarniad o opsiynau adferol, a chyfiawnhad ar gyfer yr opsiwn adfer dewisol.

Rhaid i'r holl waith a chyflwyniadau a wneir at ddibenion yr amod hwn gael eu gwneud yn unol â chanllawiau 'Tir Halogedig: rheoli risg (HTRhR)' (Hydref 2020) a dogfen ganllaw CLILC/Llywodraeth Cymru/CNC, 'Halogiad Tir: Canllaw i Ddatblygwyr' (2023) oni bai bod yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn cytuno i unrhyw amrywiad.

* Fel arfer, byddai disgwyl i 'berson cymwys dyff â chymwysterau addas' fod yn aelod siartredig o gorff proffesiynol priodol (fel Sefydliad y Peirianwyr Sifil, Cymdeithas Ddaearegol Llundain, Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig, Sefydliad Rheolaeth Amgylcheddol) a hefyd â phrofiad perthnasol o ymchwilio i safleoedd halogedig.

Rheswm:

Sicrhau bod gwybodaeth a ddarperir ar gyfer asesu'r risgiau o halogi tir i ddefnyddwyr y tir, tir cyfagos, dyfroedd rheoledig, eiddo a systemau ecolegol yn y dyfodol yn ddigonol i alluogi asesiad priodol, ac i sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisi SP1 (Cyflawni'r Strategaeth) y Cynllun Datblygu Lleol.

19. Cyn dechrau'r datblygiad, ac eithrio dymchwel, bydd cynllun adfer manwl a chynllun dilysu, i ddod â'r safle i gyflwr sy'n addas ar gyfer y defnydd arfaethedig drwy gael gwared ar unrhyw risgiau annerbyniol i iechyd pobl, dyfroedd rheoledig, adeiladau, eiddo arall a'r amgylchedd naturiol a hanesyddol, yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Bydd y cynllun yn cynnwys yr holl waith sydd i'w wneud, amcanion adfer arfaethedig a meini prawf adfer, amserlen o waith a gweithdrefnau rheoli safle. Rhaid i'r cynllun sicrhau na fydd y safle yn gymwys fel tir halogedig o dan Ran 2A o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 mewn perthynas â'r defnydd arfaethedig o'r tir ar ôl ei adfer.

Rhaid i'r holl waith a chyflwyniadau a wneir at ddibenion yr amod hwn gael eu gwneud yn unol â chanllawiau 'Tir Halogedig: rheoli risg (HTRhR)' (Hydref 2020) a dogfen ganllaw CLILC/Llywodraeth Cymru/CNC, 'Halogiad Tir: Canllaw i Ddatblygwyr' (2023) oni bai bod yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn cytuno i unrhyw amrywiad.

Rheswm:

